**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYDBWYLLGOR CRAFFU (MONITRO'R GYLLIDEB)**

**SUBJECT:** **CYDBWYLLGOR CRAFFU (MONITRO'R GYLLIDEB) - DYDD LLUN, 28 MEDI 2020 DYDD LLUN, 28 MEDI 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: S. HEALY (CADEIRYDD)

Councillors M. Cook (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. A. Davies
M. Day
P. Edwards
L. Elias
K. Hayden
J. Hill
W. Hodgins
J. Millard
M. Moore
J. C. Morgan
L. Parsons
K. Pritchard
T. Smith
B. Summers
S. Thomas
H. Trollope
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr T. Sharrem, P. Baldwin, D. Wilkshire, G. Paulsen a'r Rheolwr Gyfarwyddwr oedd yn mynychu Cyfarfod G10. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol:<br><br>*<u>Eitem Rhif 7 Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21, Rhagolwg Alldro tan 31 Mawrth 2021</u>*<br><br>Cynghorydd J.C. Morgan (Atodiad 3 – HLF Tredegar)<br>Cynghorydd W. Hodgins (Atodiad 3 – Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin)<br>Cynghorydd L. Parsons (Atodiad 3 – Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin)<br>Cynghorydd P. Edwards (Atodiad 3 - Marchnadoedd)<br><br>*<u>Eitem Rhif 8 Monitro Cyfalaf. Rhagolwg Blwyddyn Ariannol 2020/21 (fel ar 30 Mehefin 2020)</u>*<br><br>Cynghorydd W. Hodgins (Atodiad 1 a 2 – Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin)<br>Cynghorydd L. Parsons (Atodiad 1 & 2 – Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin) | |
| **No. 4** | **<u>AMSER CYFARFODYDD Y DYFODOL</u>**<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor y cynhelir cyfarfodydd y dyfodol am 10.00 a.m. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU – 9 MAWRTH 2020</u>**<br><br>Cyflwynwyd y ddalen weithredu o'r Cydbwyllgor Craffu (Monitro'r Gyllideb) a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2020, yn cynnwys:-<br><br>*<u>Gorfodaeth Parcio Sifil</u>* | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd Aelod iddo ofyn am wybodaeth am nifer yr hysbysiadau cosb sefydlog a gyhoeddwyd a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y caiff yr wybodaeth hon ei chynnwys yn y Sesiwn Wybodaeth i Aelodau.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan ddywedodd Aelod ei fod yn deall fod y Cyngor wedi cytuno rhoi blaenoriaeth i gwmpas gweithgaredd gorfodaeth yng nghanol trefi a thu allan i ysgolion, a mynegodd bryder fod cosbau'n cael eu cyhoeddi mewn ardaloedd preswyl.<br><br>Dywedodd Aelod arall yr ymddangosai fod diffyg presenoldeb wardeiniaid traffig yng nghanol trefi yn ystod y cyfnod clo.<br><br>Mewn ymateb, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau y dylai gweithgaredd Gorfodaeth Parcio Sifil fod yn amlwg ar draws y Fwrdeistref yn dilyn y cyfnod clo. Yn nhermau'r ardaloedd y gweithredir ynddynt, er y cytunwyd canolbwyntio gweithgaredd yng nghanol trefi a thu allan i ysgolion, cytunwyd y byddid hefyd yn riportio amseroedd parcio mewn man arall.<br><br>Dywedodd yr Aelod y credai y dylai patrolau yng nghanol trefi ac ysgolion y Fwrdeistref fod yn weithgaredd digonol ar gyfer swyddogion gorfodaeth heb gynnal patrolau o ardaloedd preswyl.<br><br>Dywedodd Aelod arall, oherwydd y strydoedd preswyl cul yn y Fwrdeistref, bod llawer o ardaloedd lle mae parcio yn achosi problemau, yn neilltuol fynediad i griwiau Gwastraff ac Ailgylchu.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at drafodaethau blaenorol am adolygiad o'r gorchmynion traffig ar draws y Fwrdeistref a gofynnodd am ddiweddariad am pryd y gellid disgwyl hyn.<br><br>Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai hyn yn destun adroddiad i'r Pwyllgor Craffu perthnasol maes o law.<br><br>Gofynnodd Aelod am gynnull cyfarfod Sesiwn Wybodaeth i Aelodau ar adeg addas i roi diweddariad i bob Aelod.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 6** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - 2020/2021, RHAGOLWG ALLDRO HYD 31 MAWRTH 2021 (FEL AR 30 MEHEFIN 2020)** | |

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad yn rhoi manylion rhagolwg sefyllfa all-dro ariannol pob portffolio am y flwyddyn ariannol 2020/2021 (fel ar 30 Mehefin 2020); y rhagolwg alldro am Ffioedd a Chostau; a'r cynnydd ar gyflawni prosiectau Pontio'r Bwlch ar gyfer 2020/2021.

Dywedodd y Swyddog fod y rhagolwg o'r alldro cyffredinol ym Mehefin 2020 yn amrywiad anffafriol o £1.85m cyn cymhwyso rhagolwg cyllid Caledi a Ffyrlo Llywodraeth Cymru am £1.98m, oedd yn gostwng y rhagolwg amrywiad anffafriol i £1.2m. Mae'r tabl yn adran 5.1.2 yr adroddiad yn rhoi manylion rhagolwg cyffredinol y sefyllfa ariannol ar draws pob portffolio ar 30 Mehefin 2020 a chyn cynnwys gwariant yn gysylltiedig â Covid-19.

Yn dilyn cyflwyno Arolwg Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Golli Incwm, dynodwyd pedwar maes lle roedd colled cyson o incwm ar draws holl awdurdodau Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys parcio, gwastraff, arlwyo ysgolion a gwasanaethau glanhau a diwylliannol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog fod Llywodraeth Cymru wedi ystyried hawliadau gan awdurdodau lleol am golli incwm am Chwarter 1 yn ymwneud â dogn 1, h.y. gorfodaeth parcio sifil, cynnal a chadw tiroedd, arlwyo ysgolion, gwaredu gwastraff a gwasanaethau diwylliannol) ac mae'r Cyngor wedi derbyn cyfanswm o £973,000. Fel canlyniad, cafodd £613,000 o incwm a gollwyd ei ailosod yn y rhagolygon portffolio.

Dywedodd y Swyddog y derbyniwyd £151k ychwanegol yn y dyddiau diwethaf gan Lywodraeth Cymru fel rhan o ddogn 2 hawliad colli incwm Chwarter 1. Gan roi ystyriaeth i'r Cyllid Caledi, incwm Ffyrlo a'r hawliad dechreuol am incwm a gollwyd, yr effaith net ar Gyllideb Refeniw y Cyngor oedd rhagolwg o amrywiad anffafriol o £1.2m. Dywedodd y Swyddog fod 50% o'r rhagolwg amrywiad anffafriol yn gysylltiedig â'r llwyth achos uwch am y Cynllun Gostwng Treth Gyngor sydd ar hyn o bryd yn rhagweld amrywiad anffafriol o £0.6m. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried effaith ariannol hyn ar draws Cymru.

Daeth y Swyddog i ben drwy ddweud y caiff cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r pwysau cost eu cynnwys yn Atodiad 4. Fodd bynnag, dywedodd y byddai llawer o'r pwysau cost yn gostwng gyda gweithredu dognau pellach o gyllid am golli incwm (am

wasanaethau y codir tâl arnynt) a chyllid Caledi posibl gan Lywodraeth Cymru am Gymorth Gostwng y Dreth Gyngor.

Cyfeiriodd Aelod at y Gronfa Trawsnewid a gofynnodd faint mwy o arian a ymrwymwyd i brosiect Parc yr Ŵyl.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog y cytunwyd ar £30k.

Dywedodd yr Aelod, gan gofio i Lywodraeth Cymru ddarparu Cronfa Galedi, ei fod yn bryderus fod y Cyngor fel sefydliad cyllid grant wedi derbyn cyllid ffyrlo pan fod busnesau bach mewn anawsterau a phobl yn colli eu swyddi yn y Fwrdeistref.

Dywedodd y dylid defnyddio'r £460k o'r Gronfa Trawsnewid nad yw wedi ei ymrwymo i drin unrhyw bwysau cost oherwydd y pandemig, a thra bod y Cyngor yn talu am achos busnes Parc yr Ŵyl, roedd yn siomedig y defnyddiwyd cronfeydd cadw wedi'u clustnodi ar gyfer rhai ffioedd ymgynghoriaeth. Fodd bynnag, dywedodd fod y ffaith fod cronfeydd wrth gefn y Cyngor wedi codi uwchben y lefel targed o 4% yn golygu fod efallai £900k mewn cronfeydd wrth gefn, ac yn y cyfnod anodd iawn hwn, cynigiodd yr Aelod y dylid argymell i'r Pwyllgor Gweithredol y dylid defnyddio'r arian sydd heb ei ymrwymo o'r Gronfa Trawsnewid i drin pwysau cost yn deillio fel canlyniad i'r pandemig.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau fod Llywodraeth Cymru wedi cynghori'r Cyngor i roi staff ar ffyrlo pan yn briodol. Fodd bynnag, rhoddodd sicrwydd nad oedd dim dyblygu cyllid ffyrlo Prydeinig a Chronfa Caledi Llywodraeth Cymru.

Yng nghyswllt y Gronfa Trawsnewid, tybiai'r Swyddog fod hyn wedi'i ymrwymo'n llawn, fodd bynnag ni fu unrhyw gais sylweddol am gyllid ar gyfer y cynllun hwnnw hyd yma. Mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol eleni ac efallai'r flwyddyn nesaf oherwydd y pandemig, a gall fod yn rhaid defnyddio peth o'r Gronfa Trawsnewid i roi cymorth i symud ymlaen â chynigion Pontio'r Bwlch ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r gyllideb yno i'n helpu i drin unrhyw bwysau cost ychwanegol y gall y Cyngor fod yn eu hwynebu o hyn ymlaen.

Dywedodd yr Aelod fod hwn yn gyfnod digynsail a theimlai y dylai'r cynigion Pontio'r Bwlch ddod yn ail i ddatrys problemau o fewn ein cymuned.

Yng nghyswllt cyllid ffyrlo, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod Llywodraeth Cymru wedi annog y Cyngor i ddefnyddio'r cynllun ffyrlo Prydeinig a drwy ddefnyddio'r cyllid hwnnw, roedd Llywodraeth Cymru wedi medru sicrhau mwy o arian i Gymru i roi cymorth mewn man arall. Dywedodd hefyd na fu unrhyw aelod o staff ar eu colled yn ystod y pandemig a bod hyn oherwydd y cynllun ffyrlo.

Dywedodd Aelod ei bod yn debygol iawn y byddai clybiau chwaraeon angen cymorth yn dilyn y pandemig a gobeithiai y byddai arian yn cael ei neilltuo ar gyfer y diben hwn. Cyfeiriodd hefyd at adleoli staff i Profi, Olrhain, Diogelu a gofynnodd faint mae hyn yn ei gostio i'r Awdurdod a hefyd pa fesurau sydd yn eu lle i sicrhau llesiant y staff hynny.

Rhoddodd y Prif Swyddog Masnachol sicrwydd fod staff yn cael eu cefnogi ac y cynhelir cyfarfodydd gwybodaeth dyddiol gyda'r rheolwyr hyn. Mae'r broses o gwmpasu recriwtio i'r timau hyn yn dal i fynd rhagddo, gyda'r ddogn gyntaf o staff parhaol yn ymuno â'r Tîm fore heddiw. Mae capasiti'r Tîm tua 75% ar hyn o bryd a gobeithir y bydd yn 100% erbyn yr wythnos nesaf. Mae'r Cyngor hefyd yn cael cymorth cydfuddiannol gan y 5 awdurdod lleol arall a chaiff llwythi gwaith eu monitro i sicrhau gwasanaeth ar draws Gwent.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod staff o fewn Diogelu'r Cyhoedd a Phrofi, Olrhain, Diogelu yn gweithio fel un tîm. Yn nhermau capasiti, cadarnhaodd y cafodd staff o adrannau eraill eu trosglwyddo i roi cymorth ychwanegol a hefyd staff asiantaeth ychwanegol gydag arbenigedd mewn rheoli clefydau heintus. Bu'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth ac yn gweithio i ddiogelu staff.

Yng nghyswllt costau ar gyfer Profi, Olrhain, Diogelu, dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n rhoi'r wybodaeth honno ond cadarnhaodd y caiff costau'r gwasanaeth eu had-dalu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r gwasanaeth.

Mewn ymateb i sylwadau'r Aelod am gyllid ar gyfer clybiau chwaraeon, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi unrhyw glybiau sy'n dymuno mynd

drwy'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol a thrin pob clwb ar ei haeddiant. Gwnaed tybiaethau o fewn y gyllideb am golli incwm ar weithgaredd ar y tir, fodd bynnag nid oes unrhyw becyn adnoddau ar gyfer clybiau chwaraeon.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am y gwyliau rhent 6 mis ar unedau diwydiannol yn ystod y pandemig, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai hyn yn cael 100% cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar yr amrywiad anffafriol yng nghyswllt cytundebau lefel gwasanaeth gydag ysgolion, gan ei fod yn deall fod glanhawyr yn gweithio mewn rhai ysgolion drwy fis Ebrill i fis Gorffennaf.

Esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y Cyngor yn rhagweld amrywiad anffafriol ar lanhau adeiladu ar y dybiaeth na fyddai ysgolion yn talu eu cytundebau lefel gwasanaeth gan fod y mwyafrif helaeth ar gau yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig. Fodd bynnag, cafodd rhai ysgolion eu hailbwrpasu i ddarparu cyfleusterau gofal plant ar gyfer gweithwyr allweddol. Cadarnhaodd y Swyddog bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gydag ysgolion am yr amrywiad anffafriol. Byddai angen glanhau ychwanegol o hyn ymlaen i sicrhau diogelwch staff a disgyblion a deallai bod cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwariant ychwanegol hwnnw.

Dywedodd Aelod fod yr adroddiad yn dangos faint o waith a wnaed yn ystod y pandemig a chanmolodd Swyddogion. Wedyn cyfeiriodd at adran 5.1.3 yr adroddiad sy'n tynnu sylw at yr arbedion a wnaed ar deithio ac ynni a dywedodd fod hyn mewn ffordd yn cefnogi cau'r Ganolfan Ddinesig ac i'r Cyngor symud tuag at fwy o wasanaethau rhithiol a hyblyg. Fodd bynnag, cyfeiriodd wedyn at adran 5.1.14 yr adroddiad yn amlygu'r gostyngiad mewn taliadau Treth Gyngor ac anogodd agor y ddesg arian yn y Ganolfan Ddinesig, gyda mesurau diogel rhag Covid, neu ddarparu desg arian yng nghanol trefi, gan fod llawer o breswylwyr yn dal i hoffi talu eu biliau mewn arian parod.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y gall preswylwyr sy'n dymuno talu gydag arian parod neu sicr yn medru talu biliau wrth gownteri Swyddfa'r Post a safleoedd Paypoint yn y gymuned.

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfeiriodd Aelod arall at adran 5.1.4 yr adroddiad a gofynnodd os caiff cyllid Llywodraeth Cymru am golli incwm yng nghyswllt arlwyo ysgolion ei drosglwyddo yn ôl i ysgolion.<br><br>Esboniodd y Prif Swyddog fod trafodaethau'n mynd rhagddynt gydag ysgolion i sicrhau y caiff unrhyw gyllid sy'n ddyledus iddynt ei ad-dalu.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd W. Hodgins y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at nifer y swyddi gwag a nodir yn adran 5.1.10 yr adroddiad a gofynnodd os oedd hyn yn cyfeirio at swyddi gwag ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Cyfeiriodd hefyd at sylwadau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghyswllt cyllid, a gofynnodd os oedd hyn wedi ei dderbyn ar hyn o bryd.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at adran 5.1.27 yr adroddiad a gofynnodd am eglurdeb ar sefyllfa'r gyllideb cynnal a chadw tiroedd o gofio am y ffaith fod mwyafrif clybiau o fewn y Fwrdeistref wedi mynd drwy broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol.<br><br>Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd y swyddi gwag y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd nifer o swyddi gwag ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar ddechrau'r flwyddyn mae nifer o staff mewnol wedi dilyn hyfforddiant ac mae 5 o staff yn awr wedi cymhwyso a llenwi swyddi gwag. Yng nghyswllt y Gronfa Caledi, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y derbyniwyd mwyafrif helaeth y cyllid ac er bod Llywodraeth Cymru yn herio nifer fach o elfennau, nid yw hyn yn sylweddol ar hyn o bryd.<br><br>Yng nghyswllt y gyllideb cronfa a chadw tiroedd, cadarnhaodd y Prif Swyddog y rhagwelir amrywiad anffafriol o £83k. Er bod nifer o glybiau wedi mynd drwy broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol, mae nifer o'r clybiau hynny yn dal i fod â chytundebau lefel gwasanaeth gyda'r Cyngor i gynnal a chadw tiroedd ac fel canlyniad i effaith Covid, mae'r Cyngor wedi methu gwneud cynnal a chadw tiroedd ac felly'n annhebyg o dderbyn yr incwm hwnnw.<br><br>Dywedodd Aelod y gwyddai fod y Cyngor wedi derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer addysg, ar gyfer cyflogi mwy o staff addysgu, | |

a gofynnodd am sicrwydd bod yr arian hwnnw wedi ei neilltuo ar gyfer y diben hwnnw.

Rhoddodd y Prif Swyddog Adnoddau sicrwydd lle mae'r Cyngor yn mynd i gostau ychwanegol, y caiff unrhyw gyllid ychwanegol eu defnyddio i wrthbwyso'r costau hynny ac ni fyddent yn cael eu dyrannu unrhyw le arall.

Mewn ymateb dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg fod yr Aelod yn cyfeirio at y Rhaglen Ddysgu Carlam. Cadarnhaodd fod y cyllid yn mynd yn uniongyrchol i addysg a'i basportio i ysgolion i gefnogi mwy o gapasiti addysgu a dysgu, yn neilltuol i fynd i'r afael â'r ymateb i Covid.

Cyfeiriodd Aelod at nifer y grantiau a dderbyniodd y Cyngor a gofynnodd pa effaith y byddent yn eu cael ar yr amrywiad anffafriol o £1.2m a ragwelir.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau ei fod wedi gostwng ychydig, ond roedd yr amrywiad anffafriol a ragwelwyd yn dal i fod yn sylweddol ar hyn o bryd. Mae'n debygol y bydd y Cyngor yn derbyn 50% o'i incwm coll, ond byddai hyn yn cael ei ohirio. Roedd rhai pwysau cost yn dal i fod yng nghyswllt y Cynllun Gostwng Treth Gyngor a chost casglu, ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y caiff hyn ei adolygu'n gynnar y flwyddyn nesaf.

Mynegodd Aelod arall bryder am effaith y pandemig ar farchnadoedd y Fwrdeistref, a gofynnodd os gwnaed darpariaeth ar gyfer colled incwm yn y maes hwnnw. Gofynnodd hefyd am ddiweddariad ar fynwentydd gan y deallai y byddai arian a dderbyniwyd o Amlosgfeydd Gwent yn cael ei ddefnyddio i gymhennu mynwentydd y Fwrdeistref. Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at unedau meithrin y Cyngor, dywedodd fod y gyllideb wedi bod yn dangos amrywiad anffafriol ers peth amser, a gofynnodd faint o unedau sy'n wag ar hyn o bryd ac angen eu trwsio, a hefyd faint o ddiddordeb mae cwmnïau yn ei ddangos, a hefyd faint o denantiaid a gollwyd yn ystod y pandemig.

Yng nghyswllt marchnadoedd y Fwrdeistref, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau na wnaed unrhyw ddarpariaeth benodol ond mae'r Cyngor wedi gwneud cais i Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru am golled incwm fel canlyniad i'r pandemig.

O ran mynwentydd y Fwrdeistref, dywedodd y Prif Swyddog y

cafodd adroddiad ei ystyried yn flaenorol gan y Cyngor oedd yn argymell, ac y cytunwyd, y byddai unrhyw arian dros ben o Amlosgfeydd Gwent yn mynd yn syth i'r cronfeydd wrth gefn yn hytrach na chael ei ddefnyddio i gyllido gwaith yn y mynwentydd. Fodd bynnag, fel rhan o'r rhaglen cyfalaf, dyrannwyd cyllid i wneud gwelliannau i fynwentydd y Fwrdeistref.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am yr unedau meithrin, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod hyn yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Adfywio; fodd bynnag byddai'n hapus i rannu'r wybodaeth hon gydag Aelodau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am yr unedau meithrin, cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adfywio fod portffolio Unedau Diwydiannol y Cyngor yn rhan o Flaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu. Disgwylir adroddiad ym mis Rhagfyr a rhoddodd sicrwydd y byddai'n rhoi sylw i'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelod.

Mynegodd Aelod arall bryder am yr oedi mewn casglu eitemau swmpus yn dilyn taliad. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol nad oedd yn gwybod am unrhyw broblemau ond y byddai'n codi'r mater gyda'r maes gwasanaeth.

Cynigiodd Aelod y dylid cefnogi Opsiwn 1 gydag ychwanegiad, yn yr argyfwng presennol a gan fod yr adroddiad yn dweud fod y £462k sydd ar ôl yn y Gronfa Trawsnewid yn dal i fod heb ei ymrwymo, y dylid trosglwyddo'r arian hwn i'r gronfa Covid.

Eiliwyd y Cynnig.

Cynigiodd Aelod arall y dylid cefnogi Opsiwn 1 fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Eiliwyd y cynnig.

Mewn pleidlais,

Cefnogodd 8 Aelod y gwelliant i Opsiwn 1; a
Cefnogodd 9 Aelod Opsiwn 1 fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod Aelodau'n cefnogi'r cynllun gweithredu yn Atodiad 4, a

| | | |
|---|---|---|
| | ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r amrywiadau anffafriol a ragwelir ddiwedd mis Mehefin 2020 (Opsiwn 1). | |
| **No. 7** | **<u>MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF, RHAGOLWG AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020/2021 (FEL AR 30 MEHEFIN 2020)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi trosolwg o wariant cyfalaf gwirioneddol a rhagolwg pob Portffolio o gymharu â chyllid a gymeradwywyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021, fel ar 30 Mehefin 2020, a manylion unrhyw amrywiadau anffafriol sylweddol a/neu ffafriol.<br><br>Mae rhagolwg y sefyllfa ariannol gyfredol ar 30 Mehefin 2020 yn dangos amrywiad anffafriol o £24,000 o gymharu â chyfanswm cyllideb gyfalaf yn y flwyddyn o £20m. Er gwaethaf pandemig Covid-19, roedd y gwariant uniongyrchol i fis Mehefin o £2m yn £300,000 yn uwch o gymharu â Chwarter 1 ym mlwyddyn ariannol 2019/2020. Fodd bynnag, os yw'r sefyllfa pandemig yn parhau i wella, disgwylir y byddai gwariant cyfalaf yn cyrraedd £20m erbyn 31 Mawrth 2021.<br><br>Dywedodd y Swyddog fod y rhagolwg gorwariant o £24,000 yn ymwneud â gwaith cyfalaf hanfodol yn dilyn tywydd anffafriol a'r difrod llifogydd dilynol ddechrau 2020. Gwnaed cais am gyllid i Lywodraeth Cymru, fodd bynnag nid yw'r Cyngor hyd yma wedi derbyn cadarnhad o gyllid grant at y costau. Lle'r oedd yn debygol y byddid yn mynd yn uwch na'r cyfanswm cymeradwyaeth cyllid, ac na chafodd ffynonellau cyllid ychwanegol eu dynodi, byddai'r deiliaid cyllideb i ddechrau yn hysbysu'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol am y canlyniadau, yn cynnwys cynigion i ohirio/dileu cynlluniau eraill a gymeradwywyd.<br><br>*<u>Tudalen 88 Atgyweiriadau Argyfwng Difrod Llifogydd</u>*<br><br>Cyfeiriodd Aelod at sylwadau a wnaed yn y cyfarfod blaenorol yn ceisio cyllideb fwy ddarbodus yng nghyswllt llifogydd a dywedodd y dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i hyn oherwydd y nifer o ddigwyddiadau llifogydd ar draws y Fwrdeistref.<br><br>*<u>Tudalen 85 Offer Chwarae</u>* | |

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar y cyllid a dderbyniwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ‘parc sblash’ yn y Fwrdeistref, a gofynnodd os cafodd y cyllid ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru neu ei wario mewn man arall.

Mewn ymateb esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau nad yw’r cynnig am ‘barc sblash’ yn mynd rhagddo mwyach, fodd bynnag yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru roeddent wedi cytuno y gellid defnyddio’r cyllid ar gyfer darparu offer chwarae arall yn y Fwrdeistref.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod hyn yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol. Cadarnhaodd y cafodd adroddiad ar offer chwarae ei ystyried, a’i argymell ar gyfer cymeradwyaeth, yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu ac mae rhan o’r adroddiad yn rhoi ystyriaeth i gyllid Llywodraeth Cymru a ddefnyddir ar gyfer offer chwarae yn unol â Strategaeth Chwarae y Cyngor a gytunwyd yn flaenorol.

Roedd y Cadeirydd yn cael anawsterau technegol a chymerodd yr Is-gadeirydd y Gadair ar y pwynt hwn.

Gofynnodd Aelod os y gellid adolygu Strategaeth Chwarae yn awr oherwydd y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Mewn ymateb dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol nad oedd unrhyw fwriad i adolygu’r Strategaeth Chwarae ond y byddai’r cyllid ychwanegol yn ein galluogi i fynd ymhellach lawr rhestr flaenoriaeth y Strategaeth. Mae’r adroddiad hefyd yn amlinellu’r ymrwymiad i ymgysylltu gyda phob Aelod Ward i drafod safleoedd a ddynodwyd ar gyfer eu symud neu fel arall.

Gofynnodd Aelod am ddadansoddiad o gyllid Llywodraeth Cymru a’r gyllideb offer chwarae.

<u>*Tudalen 84 Maint Dosbarthiadau Trehelyg*</u>

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg mai cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygiadau grant maint dosbarthiadau yng nghyswllt capasiti o fewn ysgolion ac yn yr achos hwn roedd ar gyfer

| | | |
|---|---|---|
| | addasiadau allanol yn yr Ysgol.<br><br>*Tudalen 84 Prosiect Ysgolion y 21ain Ganrif Six Bells*<br><br>Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg fod hyn yn cyfeirio at gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer lleoedd parcio, fodd bynnag cafodd y cynllun ei oedi fel canlyniad i ymateb Covid.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod Aelodau yn:-<br><br>• Parhau i gefnogi gweithdrefnau rheolaeth ariannol priodol a gytunwyd gan y Cyngor; a<br>• Nodi gweithdrefnau rheoli a monitro'r gyllideb sydd yn eu lle o fewn Tîm Cyfalaf, i ddiogelu cyllid yr Awdurdod (Opsiwn 1). | |
| **No. 8** | **DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL AC WEDI'U CLUSTNODI 2019/2020**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi sefyllfa all-dro Cronfeydd wrth Gefn ar gyfer 2019/2020 ar Chwarter 4 (31 Mawrth 2020). Mae Adran 6 yr adroddiad yn rhoi crynodeb cyffredinol o'r sefyllfa ariannol yng nghyswllt y balansau gweddilliol mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac wedi'u clustnodi fel ar 31 Mawrth 2020.<br><br>Wedyn cyfeiriodd y Swyddog yr Aelodau at dabl 1 yn Adran 6.1.3 sy'n dangos y sefyllfa all-dro ar gyfer y gronfa gyffredinol wrth gefn ar ddiwedd blwyddyn 2019/20 i fod yn gynnydd o £0.454m i £6.348m. Mae'r balans hwn yn 4.69% o'r gwariant refeniw net, £0.934m yn uwch na'r lefel targed o 3% sef £5.414m. Fel canlyniad i'r setliad darpariaethol cadarnhaol, roedd y Cyngor wedi cymeradwyo cynnydd i gronfeydd wrth gefn o fwy na £1.5m ar gyfer 2020/2021 wrth osod Cyllideb 2020/2021 i gefnogi cynllunio ariannol tymor cynnal a chryfhau cydnerthedd ariannol y Cyngor.<br><br>Daeth y Swyddog i'r casgliad, o gymharu gyda holl awdurdodau lleol Cymru ar 31 Mawrth 2018, mai Blaenau Gwent sydd â'r lefel isaf o gronfeydd wrth gefn cyffredinol ac wedi'u clustnodi fel canran o wariant refeniw crynswth. Mae gwybodaeth gymharol o gyfrifon statudol archwiliedig yn dangos fod y sefyllfa wedi gwella | |

| | | |
|---|---|---|
| | hyd ddiwedd 2018/19. Fodd bynnag byddai'n rhaid i gronfeydd wrth gefn cyffredinol ac wedi'u clustnodi gynyddu'n sylweddol er mwyn cyrraedd cyfartaledd Cymru.<br><br>*Atodiad 2 Adolygiadau Busnes Strategol*<br><br>Gofynnodd Aelod pam fod caffael ffioedd ymgynghori arbenigol i gefnogi'r Adolygiad Busnes Strategol wedi dod allan o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ac nid o'r Gyllideb Trawsnewid.<br><br>Mewn ymateb, esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau na chafodd y Gyllideb Trawsnewid ei sefydlu tan flwyddyn ariannol 2020/21, ac y gwnaethpwyd y costau hyn yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad ac ystyriodd Aelodau ddefnydd cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac wedi'u clustnodi ar gyfer 2019/20; a<br><br>• Nodi'r cynnydd drafft yn y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol yn 2019/2020 i £6.438m, sef 4.69% o'r gwariant refeniw net (uwch na'r lefel targed o 4%);<br><br>• Ystyried effaith y byddai'r amrywiad ffafriol o £0.454m ar gyfer 2019/20 yn ei gael ar darged y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol; a<br><br>• Pharhau i herio gorwariant cyllideb a gweithredu cynlluniau gweithredu gwasanaeth priodol lle mae angen. (Opsiwn 1)<br><br>Mae cynnal cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar lefel ddigonol yn hanfodol i'r Cyngor fedru ateb ymrwymiadau'r dyfodol yn deillio o risgiau na wnaed darpariaeth benodol ar eu cyfer. | |
| **No. 9** | **DALEN WEITHREDU – 9 MAWRTH 2020**<br><br>The action sheet arising from the Joint Scrutiny (Budget Monitoring) Committee held on 9th March, 2020 was submitted, whereupon:-<br><br>*Civil Parking Enforcement*<br><br>A Member said he had requested information on the number of fixed penalty notices that had been issued, and the Corporate Director Regeneration & Community Services confirmed that this | |

information would be included in the Members Briefing Session.

A discussion ensued when a Member said he understood the Council had agreed to prioritise the scope of enforcement activity to town centres and outside schools, and expressed concern that fines were being issued within residential areas.

Another Member said following the lockdown period there seemed be a lack of presence of traffic wardens within town centres.

In response the Corporate Director Regeneration & Community Services explained that Civil Parking Enforcement activity should be visible across the Borough following lockdown. In terms of the areas covered, whilst it had been agreed to focus activity in town centres and outside schools, it was agreed that parking issues elsewhere would also be reported.

A Member said in his opinion patrols of the Borough's town centres and schools should be ample activity for the enforcement officers without undertaking patrols of residential areas.

Another Member said due to the narrow residential streets within the Borough there were many areas where parking was causing problems, particularly access for the Waste & Recycling crews.

A Member referred to previous discussions regarding a review of traffic orders across the Borough and sought an update on when this could be expected.

The Chair confirmed that this would be subject to a report to the relevant Scrutiny Committee in due course

A Member requested that a Members Briefing Session be convened at an appropriate juncture to provide an update to all Members.

The Committee AGREED, subject to the foregoing, that the Action Sheet be noted.